| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 11 Hydref 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cyng. B. Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy / Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio Strategol |
| **Teitl:** | **Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE) – Dogfen ymgynghori** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE). Mae swyddogion yn gofyn am gymeradwyaeth i ddechrau cyfnod ymgynghori cyhoeddus wyth wythnos gydag aelodau o'r cyhoedd ac ymgyngoreion statudol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen penderfyniad ar y mater o ymgynghori cyhoeddus ar y CCA drafft i symud ymlaen tuag at fabwysiadu'r ddogfen. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ddilynol o fabwysiadu dogfen yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), y gall CCAau gael eu trin fel ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r ddogfen CCA ddrafft amgaeedig, Atodiad I, i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o wyth wythnos.

3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad II) yn rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae AHNEau yn cael eu dynodi am eu tirwedd anhygoel a'r angen i gadw a gwella eu harddwch naturiol er mwyn i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol eu mwynhau. Dynodwyd Bryniau Clwyd fel AHNE ym 1985 ac yn 2011 fe ehangwyd ar yr ardal i gynnwys Dyffryn Dyfrdwy. Mae'n un o bump yng Nghymru ac yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol, "rhaid iddynt gael eu hamddiffyn â'r statws uchaf, rhag datblygiad anaddas", sy'n debyg i'r amddiffyniad a roddir i Barciau Cenedlaethol.

4.2 Mae’r canllaw hwn wedi’i dargedu’n bennaf at unigolion sy’n cynnig datblygiad newydd ac i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau o ran rheoli’r AHNE. Y bwriad yw codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr AHNE, ac wrth wneud hynny, i godi safon datblygiadau newydd a dyluniadau tirwedd. Mae’n rhoi rhyw egwyddorion dylunio cyffredinol y dylid eu dilyn i gynorthwyo cynigion datblygu newydd. Mae canllaw ychwanegol ynglŷn â phryd y mae angen caniatâd cynllunio i'w ganfod yn y ddogfen ddrafft, Atodiad 3.

4.3 Cynhyrchwyd y ddogfen ar gyfer y tri awdurdod cynllunio lleol a gwmpesir gan AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, h.y. Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam; gyda'r gwaith llywio'n cael ei ddarparu gan Gyd-bwyllgor Ymgynghorol yr AHNE a Chyfoeth Naturiol Cymru.

4.4 Os yw’r Cyngor yn penderfynu mabwysiadu’r canllaw hwn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, bydd yn dod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn eu hardaloedd AHNE priodol, neu sy’n effeithio ar y lleoliad. Dylid ei ddarllen ar y cyd â pholisïau perthnasol cynlluniau datblygu unigol a dogfennau Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) eraill.

4.5 Mae swyddogion yn cynnig cyfnod ymgynghori cyhoeddus o wyth wythnos yn Hydref 2017, neu ar ddechrau Gaeaf 2017/18. Nid oes dyddiadau penodol wedi’u trefnu eto, ond mae’r ymgynghoriad am ddigwydd yn y tri awdurdod cynllunio lleol, h.y. Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, ar yr un pryd. Ymgynghorir â phob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned, ochr yn ochr â phobl wedi’u cofrestru ar gronfa ddata Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych. Bydd copïau caled o'r holl ddogfennau ymgynghori ar gael ym mhob llyfrgell a siop un stop yn ogystal ag ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

4.6 Bydd Swyddogion hefyd yn cynnal dau ddigwyddiad arddangos ym Mharc Gwledig Loggerheads (bydd manylion yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â’r dyddiadau ymgynghori penodol), i ganiatáu’r cyhoedd o’r tri awdurdod cynllunio lleol i drafod elfennau penodol o'r ddogfen ddrafft.

4.7 Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu hadrodd yn ôl i’r Pwyllgor Cynllunio gyda newidiadau arfaethedig o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17. Bydd y nodyn canllaw cynllunio atodol yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- Moderneiddio’r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i’n cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio’n gyfredol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ni ragwelir y bydd cymeradwyo'r ddogfen CCA drafft i fod yn destun ymarfer ymgynghori gyda chyrff statudol a’r cyhoedd yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Bydd y tîm Rheoli Datblygu yn elwa o fabwysiadu’r ddogfen wrth gyflenwi’r holl wybodaeth angenrheidiol am ddatblygiad yn yr AHNE i'n cwsmeriaid cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio, felly bydd yn gwella'r broses benderfynu.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Mae'r Asesiad Lles wedi nodi bydd y CCA drafft yn helpu i wireddu'r saith nod lles mewn ffordd niwtral neu gadarnhaol. Nid yw pob un o'r saith pwnc yn gymwys oherwydd union natur y ddogfen, cynnwys a'r gynulleidfa benodol gyfyngedig – gweithwyr proffesiynol cynllunio a darpar ymgeiswyr. Rhaid cadw mewn cof hefyd mai ystyriaeth gynllunio berthnasol yw Canllawiau Cynllunio Atodol, ac nid polisi. Dylid trin â chanlyniadau negyddol anfwriadol drwy ddeddfwriaeth a pholisïau cynllunio, os ydynt yn ymddangos yn dibynnu ar weithrediad.

7.2 Bydd angen ail-edrych ar yr Asesiad o Effaith ar Les hwn pan fydd yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gau, a bod diwygiadau wedi'u gwneud i'r ddogfen ddrafft.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Nid oes unrhyw ymgynghori ffurfiol wedi'i gynnal eto, ond roedd swyddogion o'r Tîm Cynllunio Strategol a Thai a'r Tîm Rheoli Datblygiad yn cymryd rhan gynhwysfawr wrth ddrafftio'r ddogfen CCA; mewn cydweithrediad â Chyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE a Chyfoeth Naturiol Cymru.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Ni ragwelir y bydd mabwysiadu'r ddogfen CCA ddrafft yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Os bydd unrhyw gostau yn codi bydd angen eu cynnwys o fewn y cyllidebau refeniw presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y CCA drafft. Nid yw'r ddogfen yn gosod polisi (cynllunio) Cyngor.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)